Cyllid & Thollau EM

Nodiadau gweinidogion yr efengyl

Y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Cwblhewch dudalennau *Gweinidogion yr efengyl* os oeddech:
- yn weinidog unrhyw ffydd, crefydd neu enwad, neu
- yn gyflogai a oedd yn gweithredu fel gweinidog.

Rhaid i chi gwblhau tudalen *Gweinidogion yr efengyl* neu *Gyflogaeth* ar wahân ar gyfer pob cyflogaeth a gawsoch yn y flwyddyn.

Mae cyfeiriadau at 'gweinidogion' yn y nodiadau hyn yn cynnwys ficeriaid, parchedigion, offeiriaid, rabiniaid, imamiaid a theitlau eraill a roddir i arweinwyr crefyddol. Mae cyfeiriadau at 'eglwys' yn cynnwys mosg, synagog, teml ac yn y blaen. Mae 'Ficerdy' yn cynnwys unrhyw adeilad yr ydych yn byw ynddo ac rydych yn cyflawni dyletswyddau eich gweinidogaeth oddi yno.

Pam cael tudalennau ar wahân ar gyfer gweinidogion?

Mae rhai rheolau treth yn gymwys i weinidogion yr efengyl ac ati yn unig. Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i ddeall y rheolau arbennig, ac yn rhoi arweiniad i chi am fathau amrywiol o incwm ac yn sôn wrthych am y treuliau y gallwch eu didynnu er mwyn pennu'r swm trethadwy. Ceir arweiniad pellach yn yr *Employer Income Manual*, sydd ar gael ar ein gwefan. Ewch i **www.hmrc.gov.uk/manuals/eimanual/index.htm** (o baragraph EIM60001 ymlaen).

Fel arfer mae gweinidogion naill ai'n ddeiliaid swydd neu'n gyflogeion ac mae'r nodiadau hyn yn cwmpasu incwm y ddau. Ceir arweiniad ynglŷn â statws cyflogaeth yn yr Employment Status Manual **www.hmrc.gov.uk/manuals/esmmanual/index.htm** yn dechrau yn ESM0003 (yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng cyflogaeth a hunangyflogaeth) ac yn ESM2502 (yn ymwneud â swyddi). Gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth os ydych yn ansicr. Os ydych yn hunangyflogedig gofynnwch i'r Llinell Gyswllt am y tudalennau *Hunangyflogaeth* neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg** i'w lawrlwytho.

Beth i'w gynnwys yn nhudalennau *Gweinidogion yr efengyl*

Dylech gynnwys yr holl incwm a gawsoch fel gweinidog yn y flwyddyn hyd 5 Ebrill 2011 gan gynnwys:
- cyflogau, ffioedd, comisiynau, taliadau goramser, bonysau a thaliadau cytundebol eraill, hyd yn oed os ydych wedi talu rhan o'r incwm hwnnw i elusen
- ffioedd ac offrymau am gyflawni eich dyletswyddau fel gweinidog
- rhoddion a grantiau a gewch oherwydd eich gwaith
- tâl salwch, gan gynnwys Tâl Salwch Statudol a delir gan eich cyflogwr
- tâl Mamolaeth, Tadolaeth neu Fabwysiadu a delir gan eich cyflogwr
- benthyciadau a ddilëir a wnaed oherwydd eich cyflogaeth.

Dylid nodi pensiynau clerigwyr a gafwyd ac unrhyw dreth a ddidynnwyd ym mlychau 10 ac 11 ar dudalen TR 3 eich ffurflen dreth, hyd yn oed os parhewch i weithio ar ôl ymddeol.

Beth i'w eithrio o dudalennau *Gweinidogion yr efengyl*

Ni ddylai'r canlynol ymddangos mewn unrhyw fan ar eich ffurflen dreth:
- rhodd-daliadau a gyfrennir drwy'r gyflogres
- cyfraniadau i gynllun pensiwn eich cyflogwr, a
- Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant.

Dylid eithrio yn y fan hon, cyfandaliadau a dalwyd wrth neu ar ôl terfynu cyflogaeth, ymddeoliad neu farwolaeth, a thaliadau neu fuddiannau a gafwyd gan gyn gyflogwr, ond dylech eu cynnwys ar y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol*, a amgaewyd ym mhecyn eich ffurflen dreth.

Incwm fel gweinidog yr efengyl

Blwch 2 ***Cyflog neu dâl***

Rhaid i'ch eglwys roi cofnod o'ch cyflog a'r dreth i chi. Os oeddech yn gweithio ar 5 Ebrill 2011 cewch P60 *Tystysgrif Diwedd Blwyddyn* erbyn 31 Mai 2011. Nodwch y ffigur sydd yn y blwch 'yn y gyflogaeth hon' ar eich P60 ym mlwch 2.

Os gadawsoch gyflogaeth yn ystod y flwyddyn byddwch wedi cael P45 Rhan 1A. Nodwch y ffigur yn y blwch 'cyfanswm y cyflog yn y gyflogaeth hon' ar eich P45 ym mlwch 2.

Os oedd gennych fwy nag un swydd neu benodiad yn y flwyddyn dreth gallai eich P60 gynnwys manylion cyflog a threth cyflogaeth gynharach. Rhowch y manylion hynny ar dudalennau *Gweinidogion yr efengyl* neu *Gyflogaeth* ar wahân.

Y ffigur ym mlwch 2 yw'r ffigur ar gyfer cyflog ar ôl didynnu unrhyw gyfraniadau i gynllun pensiwn eich cyflogwr (weithiau disgrifir hyn fel 'superannuation'). Cymerwch ofal wrth gopïo'r ffigur hwn o'ch P60 i dudalennau *Gweinidogion yr efengyl*.

Os cawsoch Lwfans Ceisio Gwaith yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 efallai ei fod wedi ei gynnwys ar eich P60 neu gallai fod ar P45 Rhan 1A – rhowch hwn ym mlwch 14 yn yr adran 'Pensiynau, blwydd-daliadau'r DU a buddiannau eraill y Wladwriaeth a gafwyd' ar dudalen TR3 eich ffurflen dreth, ac nid ar y tudalennau *Gweinidogion yr efengyl*.

Mae Taflen Gymorth 208 *Payslips and coding notices* yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r ffurflenni perthnasol.

Blwch 4 ***Ffioedd ac offrymau***

Dylech gynnwys yr holl ffioedd am eich gwasanaethau ac unrhyw offrymau neu gasgliadau y gallwch eu cadw drwy hawl, traddodiad neu arferiad. Ond os cafodd y ffioedd eu cynnwys yn ffigur eich cyflog ar y P60 peidiwch â'u nodi eto ym mlwch 4.

Blwch 5 ***Treuliau'r ficerdy neu'r mans a dalwyd ar eich rhan***

Nodwch gyfanswm unrhyw filiau ar gyfer gwresogi, goleuo, garddio a chynnal a chadw eich ficerdy neu eich mans rydych yn gyfrifol amdanynt, ac a dalwyd ar eich rhan.

Os oedd eich enillion (gan gynnwys buddiannau a gafwyd a threuliau a dalwyd ar eich rhan) yn llai na £8,500 y flwyddyn ni fydd rhai o dreuliau'r ficerdy yn drethadwy. Gweler y nodyn ar gyfer blwch 20 ar dudalen MN 7 am fwy o wybodaeth, ond dylech gynnwys y treuliau ym mlwch 5 hefyd.

Os ydych yn weinidog amser llawn ac mae corfforaeth eglwys neu elusen yn rhoi llety i chi fyw ynddo, lle'r ydych yn cyflawni dyletswyddau eich gweinidogaeth ohono, yna ni fydd rhai symiau a dalwyd ar eich rhan neu a ad-dalwyd i chi, yn drethadwy. Mae'r rhain yn cynnwys Treth Gyngor, trethi cyffredinol (Gogledd Iwerddon) a thaliadau am ddŵr. Peidiwch â'u cynnwys yn eich incwm trethadwy.

Blwch 6 ***Treuliau personol a dalwyd ar eich rhan, llety, talebau a chardiau credyd***

Nodwch gyfanswm unrhyw dreuliau personol (er enghraifft os yw Cyngor yr Eglwys yn talu bil atgyweirio eich car) rydych yn gyfrifol amdanynt, ond a dalwyd ar eich rhan. Efallai y gallwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer rhai o'r symiau hyn. Gweler y nodiadau ar gyfer blychau 21 i 25 ar dudalennau MN 7 i MN 9.

Os cewch lety (gweler Taflen Gymorth 202 *Living accommodation* am ddiffiniad) lle'r ydych yn cyflawni eich gweinidogaeth ohono, fel arfer caiff gwerth eich meddiant preifat o'r llety ei eithrio rhag treth. Fodd bynnag, mae'n agored i dreth os yw eich swydd yn un weinyddol yn hytrach nag un fugeiliol. Efallai y bydd eich eglwys wedi rhoi ffigur i chi ar gyfer hyn.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Mae eich incwm, gyda rhai eithriadau, yn cynnwys gwerth unrhyw dalebau a gwerth nwyddau neu wasanaethau a geir gyda cherdyn credyd neu docyn a ddarperir i chi yn rhinwedd eich swydd neu benodiad. Mae Taflen Gymorth 201 *Vouchers, credit cards and tokens* yn cynnwys arweiniad pellach. Nodwch y ffigur o flwch 12 ar y P11D. Dylai hyn gynnwys unrhyw nwyddau neu wasanaethau a brynwyd gyda cherdyn credyd cwmni neu docyn ar eich cyfer chi a'ch teulu neu'ch aelwyd. Os defnyddiwch y talebau neu'r cerdyn credyd gennych i dalu treuliau eich gweinidogaeth dylech gynnwys eu gwerth ym mlwch 6 o hyd ond dylech ddidynnu swm priodol ym mlychau 21 i 25.

Blwch 7 ***Lwfans milltiroedd a thaliadau cludo teithwyr gormodol***

Os telir lwfans milltiroedd i chi (blwch 12 ar y P11D) am ddefnyddio eich car, fan, beic modur neu feic eich hun ar gyfer gwaith, gallai'r swm a gewch fod yn fwy na'r uchafswm a allwch dderbyn yn rhydd o dreth o dan y rheolau ar gyfer Taliadau Lwfans Milltiroedd Cymeradwy (TLMC).

Yr uchafswm y gallwch dderbyn yn rhydd o dreth yn 2010-11 yw'r milltiroedd a deithiwch yn eich gwaith fel gweinidog wedi ei luosi gyda'r gyfradd briodol a welir yn y tabl isod.

Math o gerbyd		**Cyfradd**
Ceir a faniau	*10,000 milltir gyntaf a deithir*	40c y filltir
	Pob milltir dros 10,000	25c y filltir
Beiciau modur		24c y filltir
Beiciau		20c y filltir

Enghraifft 1

Rydych wedi teithio 16,000 milltir yn eich gweinidogaeth yn eich car eich hun.

Y mwyaf y gallwch dderbyn heb dalu treth yw:

10,000 milltir ar 40c	£4,000
6,000 milltir ar 25c	£1,500
Cyfanswm	£5,500

Os cewch fwy na hyn bydd y swm ychwanegol yn drethadwy ac fe'i dangosir ar y P11D; nodwch hwn ym mlwch 7. Os yw'r swm a gewch yn llai na'r uchafswm, gallwch wneud cais am ryddhad am y diffyg. Dylech nodi hwn ym mlwch 21.

Taliadau am gludo teithwyr

Mae taliadau am gludo teithwyr yn symiau a delir i chi am gludo cyflogeion eraill fel cyd-deithwyr ar daith sy'n daith fusnes i chi yn ogystal â'ch cyd-deithwyr.

Uchafswm y taliadau am gludo teithwyr y gallwch eu derbyn yn rhydd o dreth yn 2010-11 yw 5c am bob cyd-deithiwr am bob milltir a deithiwch.

Gallai'r swm a gewch am gludo teithwyr fod yn fwy na'r uchafswm sy'n rhydd o dreth. Mae'r swm ychwanegol yn agored i dreth ac fe'i dangosir ar y P11D; nodwch y swm ychwanegol hwn ym mlwch 7. Os bydd y swm a gewch yn is na'r uchafswm, ni allwch gael rhyddhad treth ar y diffyg.

Bydd unrhyw symiau a gewch am gludo teithwyr nad ydynt o fewn y diffiniad o daliadau am gludo teithwyr yn agored i dreth. Nodwch y rhain ym mlwch 17.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Blychau 8 a 9 ***Treuliau cronnol a lwfansau rhent***

Nodwch gyfanswm unrhyw lwfansau cronnol a dalwyd i chi, ac unrhyw dreth y DU a ddidynnwyd ym mlychau 8 a 9 oni bai eu bod eisoes wedi eu cynnwys yn y ffigurau ar eich P60. Dylech gynnwys hefyd unrhyw lwfans a dalwyd i chi i'ch helpu i dalu'r rhent neu'r morgais. Efallai y gallech wneud cais am ddidyniad ar gyfer y treuliau a dalwch o lwfans cronnol neu am ran o unrhyw rent a dalwch. Gweler y nodiadau ar gyfer blwch 21 i 25 ar dudalen MN 7 i MN 9.

Blychau 10 ac 11 ***Incwm arall a gewch o'ch swydd neu'ch penodiad***

Nodwch swm unrhyw incwm arall a gewch (a threth ar yr incwm hwnnw) o'r swydd hon ym mlychau 10 ac 11. Os ydych yn cynnal caplaniaeth oherwydd ei bod yn rhan o'ch swydd drwy hawl, traddodiad neu arferiad yna dylech gynnwys yr incwm yma. Fodd bynnag, dylai incwm (a'r dreth o'r incwm hwnnw) o gaplaniaethau sydd ar wahân i'ch prif benodiad gael ei gynnwys ym mlychau 36 a 37.

Nodwch gyfanswm unrhyw roddion a grantiau a gawsoch yn rhinwedd eich swydd fel gweinidog ym mlwch 10. Peidiwch â chynnwys rhoddion personol, er enghraifft anrhegion pen-blwydd, neu roddion a grantiau ar ffurf cyfandaliadau a wnaed i chi er mwyn lliniaru caledu sy'n neilltuol i'ch amgylchiadau eich hun. Bydd grantiau a roddir i glerigwyr yn gyffredinol, yn hytrach nag ar gyfer eich amgylchiadau eich hun yn agored i dreth a dylech eu cynnwys yma. Os ydych yn ansicr p'un a yw grant yn agored i dreth ai peidio, gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth. Nodwch unrhyw dreth y DU a ddidynnwyd ym mlwch 11.

Os bydd cyflogwr yn rhoi rhywbeth i chi ar ffurf nwyddau (hynny yw, heblaw mewn arian parod – er enghraifft car modur), bydd y gwerth trethiannol yn dibynnu ar p'un a oedd eich enillion ar gyfradd o £8,500 y flwyddyn neu ragor (gweler 'Buddiannau a thaliadau am dreuliau a gawsoch fel gweinidog yr efengyl'ar dudalen MN 5). Os oedd eich enillion (gan gynnwys cyfwerth mewn arian parod yr ased a drosglwyddwyd) ar gyfradd a oedd yn is na £8,500 y flwyddyn, y gwerth trethadwy yw'r swm y gallech werthu'r ased, hynny yw, ei werth ail-law. Dylech ddefnyddio'r prisiad hwn p'un a ydych yn ei werthu mewn gwirionedd ai peidio. Os ydych yn ansicr, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth. Os oedd eich enillion (gan gynnwys cyfwerth arian parod yr ased a drosglwyddwyd) ar gyfradd o £8,500 y flwyddyn neu ragor, y gwerth trethadwy yw'r uchaf o'i werth ail-law a chost yr ased i'r person a'i darparodd i chi. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Nhaflen Gymorth 213 *Payments in kind – assets transferred*.

Gallai taliadau mantoli godi os byddwch yn peidio â bod yn weinidog yn ystod y flwyddyn, neu os gwerthwch neu os na fyddwch bellach yn defnyddio eitemau ar gyfer eich gwaith, megis cyfrifiaduron ac offer, y gwnaethoch hawlio lwfansau cyfalaf ar eu cyfer (ond nid ceir, beiciau modur neu feiciau). Os bydd derbyniadau'r gwerthiant neu werth yr eitem yn fwy na gwerth y 'gronfa', gelwir y gwahaniaeth yn 'dâl mantoli'. Mae hwn yn agored i dreth a dylid ei gynnwys ym mlwch 10. Os credwch y gallech hawlio lwfansau cyfalaf, neu os bydd angen cymorth arnoch i gyfrifo taliadau mantoli, mae mwy o wybodaeth ar gael yn Nhaflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges*.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Buddiannau a thaliadau am dreuliau a gawsoch fel gweinidog yr efengyl

Mae'n ofynnol ar eich eglwys ddweud wrthym ynglŷn â'r holl fuddiannau a threuliau trethadwy a ddarperir neu a dalwyd i chi ar ffurflen P11D. Gallant naill ai roi copi o'r P11D neu roi'r un wybodaeth i chi, a rhaid iddynt wneud hyn erbyn 6 Gorffennaf 2011. Os na fyddwch wedi ei derbyn erbyn hynny, dylech siarad â'ch eglwys neu ein ffonio ni.

Os yw eich eglwys wedi trefnu goddefeb (dispensation) gyda ni ynglŷn â rhai buddiannau a threuliau (fel nad oes rhaid i chi ddweud wrthym am rhan o'ch incwm ac yna hawlio rhyddhad treth am yr un swm), efallai na fyddant yn ymddangos ar y P11D. Peidiwch â phryderu ynglŷn â hyn a pheidiwch â'u nodi ar dudalennau *Gweinidogion yr efengyl*.

Ceir arweiniad cyffredinol ynglŷn â buddiannau a threuliau yn y llyfryn 480 *Expenses and benefits – a tax guide*, sydd ar gael o **www.hmrc.gov.uk**

Blwch 13 *Gwasanaethau a buddiannau'r ficerdy neu'r mans*

Nodwch y swm a dderbyniwch tuag at gostau cynnal a chadw'r ficerdy neu'r mans ym mlwch 13. Enghreifftiau o'r hyn y dylech ei gynnwys yma yw:

- biliau gwresogi, goleuo a glanhau a chostau atgyweirio, cynnal a chadw ac addurno'r eiddo (yn cynnwys yr ardd) y mae'r eglwys yn gyfrifol amdanynt. Ni ddylech gynnwys gwaith atgyweirio adeileddol nac addurno'r tu allan i'r eiddo, neu unrhyw atgyweiriadau i'r gosodiadau a'r ffitiadau y byddai'r landlord yn gyfrifol amdanynt petai'r eiddo ar osod i chi ar brydles atgyweirio gan denant. Os bydd angen cymorth arnoch, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth.
- dodrefn/celfi, deunyddiau dodrefn, carpedi sydd wedi ei gosod ac eiddo domestig arferol arall a ddarperir at eich defnydd. Seilir cyfwerth mewn arian y rhain fel arfer ar 20% o'u gwerth ar y farchnad agored pan gawsant eu darparu'n gyntaf fel budd.
- gwasanaethau domestig (heblaw am lanhau).

Blwch 14 *Car a ddarperir ar eich cyfer*

Nodwch y ffigur o flwch 9 ar y P11D. Os defnyddiwch eich cerbyd eich hun ar gyfer gwaith (nid yn unig ar gyfer cyrraedd y gwaith a mynd adref) darllenwch y nodiadau ar gyfer blwch 21. Gweler y nodiadau ar gyfer blwch 10 hefyd os rhoddwyd car i chi'n llwyr.

Blwch 15 *Tanwydd ar gyfer car a ddarperir ar eich cyfer*

Nodwch y ffigur o flwch 10 ar y P11D.

Blwch 16 *Benthyciadau di-log a llog isel*

Nodwch y ffigur o flwch 15 ar y P11D. Peidiwch â nodi'r swm a fenthycwyd dim ond y gwahaniaeth rhwng y llog a daloch (os o gwbl) a'r hyn y byddech wedi ei dalu petai'r benthyciad wedi bod ar y gyfradd log swyddogol. Cysylltwch â ni os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

Blwch 17 *Taliadau am dreuliau a wnaed i chi*

Nodwch y taliadau neu'r ad-daliadau a wnaed i chi, ac eithrio'r symiau rydych eisoes wedi'u cynnwys ym mlychau 6 neu 8, treuliau a ad-dalwyd mewn cysylltiad â char a ddarparwyd yn rhinwedd eich swydd, a symiau y mae gan yr eglwys oddefeb ar eu cyfer.

Blwch 18 ***Buddiannau eraill***

Nodwch ym mlwch 18 unrhyw symiau sy'n weddill ar y P11D ac sydd heb eu nodi eisoes ym mlychau 13 i 17. Defnyddiwch y Daflen Waith isod.

Taflen Waith ar gyfer blwch 18

Treuliau adleoli cymwys (gweler isod)		£
Nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd		£
Asedion a drosglwyddwyd i chi neu eich teulu		£
Asedion a ddarparwyd at ddefnydd preifat		£
Galwadau ffôn		£
Tanysgrifiadau a dalwyd gan eich eglwys		£
Rhai lleoedd mewn meithrinfeydd		£
Peth cymorth addysgiadol		£
Pob buddiant arall		£
Cyfanswm *Copïwch y ffigur ym mlwch A i flwch 18*	A	£

Pecynnau adleoli

Os byddwch yn symud tŷ bydd unrhyw daliadau a gewch, neu unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddarperir i chi gan eich eglwys neu gorff cynrychioliadol yn rhan o'ch enillion trethadwy. Ond os byddwch yn symud tŷ at ddibenion swydd ac yn bodloni rhai amodau penodol, bydd yr £8,000 cyntaf o unrhyw gymorth yn rhydd o dreth. Mae'r £8,000 hwnnw ar gyfer symud tŷ yn ei gyfanrwydd ac nid ar gyfer pob blwyddyn dreth. Gall eich eglwys neu'r corff cynrychiadol eich helpu i gyfrifo'r hyn ddylid ei gynnwys yn y Daflen Waith ar gyfer blwch 18 a byddant yn dweud wrthym p'un a ddarparwyd unrhyw dreuliau neu fuddiannau i chi sy'n uwch nag £8,000.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Incwm trethadwy ac ati cyn talu treuliau

Blwch 20 ***Incwm trethadwy, buddiannau a threuliau a gafwyd***

Nodwch ym mlwch 20 swm eich incwm trethadwy a buddiannau fel gweinidog. Mae'r ffigur a nodwch yn dibynnu ar p'un a yw eich incwm ym mlwch 12 yn ogystal â'r buddiannau a'r treuliau ym mlwch 19 ar gyfradd o £8,500 (neu fwy) y flwyddyn, neu'n llai na £8,500.

Os ydynt o dan y trothwy £8,500, gallwch drwy gonsesiwn eithrio rhai symiau penodol o'ch incwm trethadwy a dalwyd ar eich rhan, neu a ad-dalwyd i chi, mewn cysylltiad â ficerdy a ddarparwyd i chi gan elusen neu gorfforaeth eglwysig. Ceir arweiniad pellach yn yr Employer Income Manual, sydd ar gael ar ein gwefan. Ewch i **www.hmrc.gov.uk/manuals/eimanual/index.htm** (yn EIM60015).

Os ydynt yn £8,500 neu fwy'r flwyddyn, nodwch gyfanswm blychau 12 ac 19 ym mlwch 20. **Os ydynt o dan y trothwy £8,500** nodwch flwch 12 llai blwch 5 ym mlwch 20.

Treuliau a dalwyd gennych fel gweinidog yr efengyl

Gallwch ddidynnu dim ond y costau hynny y bu'n rhaid i chi eu talu allan o incwm eich swydd neu eich penodiad. **Os na fydd y buddiannau a'r taliadau am dreuliau a gewch yn drethadwy am eich bod o dan y trothwy o £8,500 yna ni ddylech hawlio didyniad ar gyfer treuliau a dalwyd gennych o symiau pan nad ydynt yn drethadwy.**

Os yw eich eglwys wedi trefnu goddefeb gyda ni, ni ddylech ddidynnu unrhyw dreuliau a gwmpesir gan yr oddefeb honno neu unrhyw dreuliau y gallwch eu hawlio'n ôl o'r eglwys. Os bydd angen cymorth arnoch gyda hyn, mynnwch air gyda'ch talwr neu cysylltwch â ni.

Blwch 21 ***Treuliau teithio a lwfansau cyfalaf***

Ni allwch gael rhyddhad treth ar gyfer costau teithio o'ch cartref i'ch gweithle arferol. Fodd bynnag gallwch ddidynnu costau teithiau yn eich gweinidogaeth, hynny yw o un gweithle i'r llall yn yr un swydd neu benodiad, p'un a yw yn y DU neu dramor. Gallwch hefyd ddidynnu costau mewn cysylltiad â llety a phrydau. Gallwch gyfrifo cyfanswm y rhyddhad drwy ddefnyddio'r Daflen Waith ar dudalen MN 8.

Os defnyddiwch eich cerbyd eich hun ar gyfer gwaith, gallwch dderbyn hyd at y symiau a welir yn y tabl ar gyfer blwch 7. Peidiwch â chynnwys hyn ar y tudalennau *Gweinidogion yr efengyl*. Os cewch lai na'r uchafswm, neu dim byd o gwbl, gallwch gael rhyddhad treth (a elwir yn Rhyddhad Lwfans Milltiroedd) am y diffyg.

Enghraifft 2

Yr uchafswm y gallwch gael yn rhydd o dreth yn Enghraifft 1 ar gyfer blwch 7 yw £5,500. Os cawsoch £3,500 yn unig gallwch hawlio Rhyddhad Lwfans Milltiroedd am y diffyg o £2,000 a dylech gynnwys hwn ym mlwch 21.

Ni allwch gael rhyddhad treth am eich treuliau gwirioneddol os ydynt yn fwy. Cadwch gofnod o'r milltiroedd a deithir yn eich gweinidogaeth ar gyfer pob math o gerbyd, a swm y treuliau lwfans milltiroedd a dalwyd i chi.

Lwfansau cyfalaf

Efallai y gallwch hawlio lwfansau cyfalaf (sef lwfansau treth ar gyfer dibrisiant) ar gyfer costau offer angenrheidiol neu gyfeirlyfrau diwinyddiaeth. Ni allwch gael lwfansau cyfalaf ar gyfer car, fan, beic modur neu feic – yn lle hynny gallwch gael Rhyddhad Lwfans Milltiroedd (gweler y nodiadau uchod) sy'n cynnwys swm ar gyfer dibrisiant. Mae Taflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* yn cynnwys arweiniad pellach.

Taflen Waith ar gyfer blwch 21

Rhyddhad Lwfans Milltiroedd		£
Lwfansau cyfalaf		£
Costau caniataol eraill, gan gynnwys costau prydau a llety perthynol		£
Treuliau eich gwaith fel gweinidog megis costau galwadau ffôn, ffacs a llungopïo		£
Cyfanswm *Copïwch y ffigur ym mlwch A i flwch 21*	A	£

Blwch 22 ***Cynnal a chadw, atgyweiriadau ac yswiriant y ficerdy neu'r mans ac ati***

Os ydych yn weinidog amser llawn ac mae corfforaeth eglwysig neu elusen yn darparu llety i chi lle'r ydych yn byw ac rydych yn gweithio oddi yno, gallwch ddidynnu un chwarter o'r hyn a wariwch i'w gynnal, ei atgyweirio neu ei yswirio. Gellir didynnu ystod ehangach o dreuliau sy'n ymwneud ag eiddo o dan flwch 25 ond ni ddylech gynnwys unrhyw symiau a gynhwysch ym mlwch 22 ym mlwch 25 hefyd. Os oes angen cymorth arnoch ynglŷn â hyn gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth.

Blwch 23 ***Rhent***

Os ydych yn rhentu tŷ a defnyddir rhan ohono yn bennaf ar gyfer eich gwaith, gallwch ddidynnu rhan briodol. Er enghraifft, os oes naw ystafell gennych ac rydych yn defnyddio un fel astudfa ar gyfer eich gwaith fel gweinidog, didynnwch nawfed ran y rhent a dalwch. Fodd bynnag, ni ddylai'r didyniad fod yn fwy na chwarter y rhent a dalwch.

Blwch 24 ***Cymorth ysgrifenyddol***

Gallwch ddidynnu cost cymorth ysgrifenyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer eich gwaith. Ni allwch ddidynnu symiau a dalwyd i'ch cymar am waith fel aelod gweithgar o'r eglwys.

Blwch 25 ***Treuliau eraill***

- *Llyfrau* – gallwch ddidynnu cost llyfrau rydych wedi eu prynu i'w defnyddio mewn oedfaon neu ar gyfer paratoi pregethau. Nid oes didyniad ar gael ar gyfer llyfrau neu gyfnodolion a ddefnyddiwch ar gyfer darllen cefndirol cyffredinol.
- *Deunyddiau ysgrifennu, postio a ffôn* – didynnwch gostau eich gwaith fel gweinidog.
- *Gwisgoedd a threuliau oedfaon* – gallwch ddidynnu costau atgyweirio neu amnewid gwisgoedd a wisgir yn ystod oedfaon yn unol â chyfraith yr eglwys neu yn ôl arferiad eglwys benodol. Os taloch am eitemau a ddefnyddiwyd mewn oedfaon (fel bara a gwin cymun), nodwch y swm a wariwyd gennych yma.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

- *Defnyddio adeiladau at ddibenion gwaith yr eglwys* – os defnyddiwch ran o'r eiddo lle'r ydych yn byw ar gyfer gwaith yr eglwys, yna gallwch ddidynnu rhan o gost goleuo, gwresogi, glanhau, cynnal a chadw, ac ati. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw ran o'r gost y gwneir cais amdani yma yn cael ei heithrio o flwch 22.
- *Cyflenwi dros dro* – os oedd angen i chi benodi rhywun i gyflawni dyletswyddau eich swydd dros dro yna gallwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer y gost.
- *Gwesteia* – ni fyddwch fel arfer yn gallu hawlio rhyddhad treth ar gyfer unrhyw dreuliau am westeia at ddibenion swyddogol. Ond fel eithriad os bydd yn rhaid i chi westeia clerigwyr, swyddogion yr eglwys neu aelodau o'r eglwys sy'n ymweld ar achlysuron swyddogol, gallwch ddidynnu costau rhesymol. Ni ddylai'r didyniad fod yn uwch na'r swm a delir i chi ar gyfer gwesteia.
- *Tanysgrifiadau i gyrff proffesiynol* – efallai y bydd hawl gennych ddidynnu tanysgrifiadau blynyddol i gyrff proffesiynol a gymeradwyir gennym ac sy'n berthnasol i'ch gwaith. Bydd y corff proffesiynol yn dweud wrthych faint i'w gynnwys ym mlwch 25.

Adiwch yr holl dreuliau eraill at ei gilydd a nodwch y cyfanswm ym mlwch 25.

Terfyn ar fuddiant gwasanaethau

Os yw gwerth y llety a ddarperir wedi ei eithrio rhag treth (gweler blwch 6 uchod) ac os oedd eich incwm, eich buddiannau a'ch taliadau am dreuliau ar gyfradd o £8,500 neu ragor y flwyddyn, yna gosodir 'terfyn' ar swm y buddiannau trethadwy. Mae'r terfyn yn 10% o'r incwm net a gewch o'ch swydd neu eich penodiad. Defnyddiwch flychau 27 i 35 i gyfrifo p'un a yw'r terfyn yn berthnasol i chi.

Blwch 28 *Ôl gyflog 2010-11*

Os oes cyflog yn ddyledus i chi ar gyfer 2010-11 na chafodd ei dderbyn erbyn 5 Ebrill 2011, nodwch y swm ym mlwch 28.

Blwch 29 *Ôl gyflog am flwyddyn gynharach a gafwyd yn ystod 2010-11*

Os cawsoch ôl gyflog am flynyddoedd cyn 2010-11 a chynhwyswyd y swm hwn yng nghyfanswm eich incwm ym mlwch 12, nodwch y swm ym mlwch 29.

Blwch 30 *Taliadau i gynlluniau pensiwn*

Dylech gynnwys ym mlwch 30 unrhyw gyfraniadau a dalwyd gennych i gynllun pensiwn cofrestredig na chawsant eu didynnu o'ch cyflog cyn tynnu treth. Mae hyn yn cynnwys:

- cyfraniadau i gynlluniau pensiwn personol
- cynlluniau pensiwn cyfranddeiliad
- cynlluniau cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol rhydd (FSAVC)
- premiymau i gytundebau blwydd-dal ymddeol pan nad yw'ch darparwr yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol, a
- taliadau i gynllun pensiwn tramor nad yw wedi ei gofrestru yn y DU ac sy'n gymwys am ryddhad treth ac ni chawsant eu didynnu o'ch cyflog cyn treth.

Cymerir cyfraniadau a ddidynnwyd o'ch cyflog cyn treth i ystyriaeth yn awtomatig yn y ffigur ym mlwch 27. (Mae'r mathau o gyfraniadau a allai gael eu didynnu o'ch cyflog cyn treth yn cynnwys cyfraniadau i gynlluniau pensiwn galwedigaethol rhai cyflogwyr a chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i gynlluniau cyflogwyr.)

Blwch 32 ***10% o'r incwm net ym mlwch 31***

Os na ddarparwyd llety i chi am y flwyddyn 2010-11 yn gyfan, dylech yn gyntaf luosi'r ffigur ym mlwch 31 gan nifer y dyddiau yr oedd y llety yn eiddo i chi. Yna rhannwch hwn gan nifer y diwrnodau mae'r ffigur ym mlwch 31 – 365 diwrnod os oeddech yn eich swydd am y flwyddyn dreth gyfan. Cymerwch 10% o'r canlyniad a nodwch y ffigur hwn ym mlwch 32.

Blwch 33 ***Y swm a daloch tuag at y budd a gawsoch am wasanaethau cyhoeddus***

Nodwch gyfanswm yr hyn a dalwyd gennych yn y flwyddyn dreth i ddarparwr y budd am wasanaethau cyhoeddus.

Blwch 35 ***Terfyn ar yr uchafswm am fuddiant gwasanaethau cyhoeddus***

Ychwanegwch y symiau ym mlychau 33 a 34 at ei gilydd a thynnwch y canlyniad o'r ffigur ym mlwch 32. Os ydy'r canlyniad yn bositif, nodwch y swm ym mlwch 35. Os ydy'r canlyniad yn negyddol, nodwch '0' ym mlwch 35.

Incwm arall fel gweinidog yr efengyl

Blwch 36 ***Caplaniaeth ac incwm arall fel gweinidog***

Dylech gynnwys yma unrhyw fân incwm ar wahân na chafodd ei gynnwys eisoes ym mlwch 10. Nodwch unrhyw dreth a ddidynnwyd o'r incwm hwn ym mlwch 37.

Incwm trethadwy ac ati

Blwch 38 ***Incwm trethadwy llai treuliau***

Ychwanegwch y ffigur ym mlwch 35 at y ffigur ym mlwch 26. Cyfrifwch gyfanswm y ffigurau ym mlychau 20 a 36. Tynnwch gyfanswm y cyfrifiad cyntaf o gyfanswm yr ail gyfrifiad. Nodwch y canlyniad ym mlwch 38.